

## BELL, ERNEST DAVID (1915 - 1959), arlunydd a bardd

**Enw:** Ernest David Bell  
**Dyddiad geni:** 1915  
**Dyddiad marw:** 1959  
**Priod:** Megan Hinton Bell (née Jones)  
**Rhiant:** Mabel Winifred Bell (née Ayling)  
**Rhiant:** Harold Idris Bell  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arlunydd a bardd  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth; Barddoniaeth  
**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd 4 Mehefin 1915, yn fab i [Syr Idris Bell](#) a Winifred (ganwyd Ayling). Cafodd ei addysg mewn ysgol breifat yn Crouch End, Llundain, ac yna yn ysgol Merchant Taylors, lle yr astudiodd y clasuron a derbyn peth hyfforddiant mewn celfyddyd. Bu am bedair blynedd yn y Coleg Celfyddyd Brenhinol ac enillodd y diploma. Ar ddiwedd y cwrs aeth i'r Sudan o dan yr Egypt Exploration Society, a bu'n gweithio yn Sesepe ac Amarah yn 1936-37 ac 1937-38. Ar ôl dechrau'r rhyfel yn 1939 bu am rai misoedd yn Llanfairfechan cyn cael gwaith yn adran cartograffeg y Morlys, yn Bath i gychwyn ac yna yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dychwelodd i Lundain gyda'r adran, ac arhosodd gyda hi hyd derfyn y rhyfel. Yn 1946 penodwyd ef yn gyfarwyddwr cynorthwyol (celfyddyd) dan Bwyllgor Cymru Cyngor y Celfyddydau, ac yn 1951 yn guradur Oriel Gelfyddyd Glyn Vivian, Abertawe.

Cydweithiodd David Bell â'i dad ar y cyfieithiadau o gerddi [Dafydd ap Gwilym](#) a gyhoeddwyd dan y teitl *Dafydd ap Gwilym: fifty poems*, fel cyfrol xlviii *Y Cymmrodor* yn 1942. Ef oedd awdur 24 o'r cyfieithiadau. Yn 1947 cyfieithodd i'r Saesneg eiriau *Wyth gân werin* (Enid Parry). Yn 1953 cyhoeddodd *The Language of pictures*, llyfr a fwriadwyd (a dyfynnu'r rhagair) nid i ychwanegu at wybodaeth neb am gampweithiau'r byd nac am ddarluniau cyfoes ... ond yn hytrach i gyfoethogi profiadau pobl, pan welont ddarlun, trwy iddynt ddeall beth y mae'r arlunydd yn ceisio'i ddweud a sut y mae'n ei ddweud.' Cyhoeddodd *The Artist in Wales* yn 1957, ymgais i gyffroi ymateb i gelfyddyd yng Nghymru. Yn 1959 cyhoeddodd ei dad 17 o gerddi gwreiddiol David Bell, a gyfansoddwyd rhwng 1938 ac 1954, mewn argraffiad preifat o 65 o gopiau dan y teitl *Nubian Madonna and other poems*.

Priododd Megan Hinton Jones o Aberystwyth yn 1944, a bu iddynt ddau fab. Pan oedd yn 14 oed cafodd David Bell y clefyd encephalitis lethargica, a bu ei effaith arno tra bu byw. Bu farw 21 Ebrill 1959.

### Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

### Ffynonellau

*Nubian Madonna and other poems* (Aberystwyth 1959)

gwybodaeth gan ei weddw

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [David Bell](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [88053957](#)

Wikidata: [Q5231277](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

